

Cofion

Parhawn i gofio heddiw am Gwyneth Williams (Llanfair) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd. Yr ydym yn ei chyflwyno hi, fel eraill yn yr ofalaeth sydd heb fod yn mwynhau'r iechyd gorau, i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd. Hyderwn y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.

Detholiadau

Os hoffech gael copi o
Raglen Cymanfaoedd Canu 2017-2018


(Hen Nodiant a/neu Sol-ffa),

rhowch eich archeb i arolygwr eich Ysgol Sul

ERBYN DYDD SUL, MEDI 17^{eg}

os gwelwch yn dda. Pris: £1.40

(Arolygwyr: Wnewch chi roi eich archeb i Mair ddechrau'r wythnos ganlynol, os gwelwch yn dda?)



I ddod

- **CYMDEITHAS CHWIORYDD HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** – Cyfarfod tymor yr Hydref yng Nghapel Trefnant nos Fercher, Medi 20fed am 7.00. Y wraig wadd fydd Mrs Carys Davies ac fe fydd yn cyflwyno “Llwybr Mari a’n Llwybr Ni – sut fywyd oedd gan ferch ifanc o Gristion ar ddechrau'r 19eg ganrif, ynghyd â thystiolaethau gan ferched heddiw”.
- **HENADURIAETH DYFFRYN CLWYD** yn cyfarfod yng Nghapel Clawddnewydd nos lau, Medi 21ain. Pwyllgor Gwaith am 4.30, a Gwaith yr Henaduriaeth am 6.00 a Gwasanaeth Cymun i ddilyn.
- **CYFARFOD GWOBROWYO FFYDDLONIAID YR YSGOL SUL A'R FEDAL GEE** dydd lau, Medi 28ain yng Nghapel Emaus (Penuel), Ffordd y Cariadon, Bangor am 2.30.
- **SUL ARBENNIG I'R FRO I DDATHLU 450 MLWYDDIANT CYFIEITHU'R TESTAMENT NEWYDD I'R GYMRAEG** yng nghwmni Arfon Jones, Caerdydd dydd Sul, Hydref 1af. Oedfa'r bore i'r teulu cyfan yn Llansannan am 10.30 ac oedfa'r hwyr am 6.00. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **DARLITH: DATHLU 450 MLYNEDD ERS CYHOEDDI Y TESTAMENT NEWYDD CYMRAEG GAN WILLIAM SALESBURY** – Fel rhan o'r dathliadau, cynhelir darlith wedi ei threfnu gan Gymdeithas Hanes Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan nos Fercher, Hydref 4ydd am 7.30. Traddodir y ddarlith gan y Dr E. Gwynn Mathews. Croeso cynnes i bawb.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 10^{fed} Medi 2017

Darlleniad y Dydd

2 Samuel 6:20-23

(BCND tud.286 / BCN tud.261)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i'r oedfaon ym Mro Aled heddiw. Beth am i ni i gyd gymryd y cyfle heddiw i ddod o flaen yr Arglwydd a'i addoli a dysgu o'i Air? Gweddiwn y byddwn ni'n dod i'w adnabod o'n well, ac yn dod i garu ein gilydd yn well yn y cyfnod yma.

Tybed a ydych chi'n bobl o arferion, hynny ydy, fod gennych chi ffordd o wneud pethau ac yn hapus yn yr arferiad yna – efallai bwyta uwd gyda llwyaid o siwgr ynddo i frecwast; gwyllo'r teledu yr un amser bob wythnos; cyfarfod â ffrindiau yn yr un llefydd yn gyson? Tybed a ydym yn dilyn yr un patrwm tra'n ystyried ein ffydd a'n capeli? Ydym ni wedi colli golwg ar y rhesymau rydym ni'n gwneud y pethau rydym ni'n gwneud ar fore ddydd Sul?

Mae ein darlleniad ni heddiw yn adrodd rhan o fywyd y brenin Dafydd yn fuan wedi iddo ddod yn frenin ar Israel. A bod yn onest, ddyd o ddim yn amlwg ar y darlleniad cyntaf beth sy'n digwydd – mae'n ddigon posib ein bod yn cochi wrth ddarllen fod y brenin wedi dinoethi ei hun o flaen ei weision! Dychmygwch – yn fuan ar ôl iddo gael ei eneinio yn frenin oedd newydd gipio Jerwsalem – y Brenin yn neidio a dawnsio heb y rhan fwyaf o'i ddillad ymlaen! Doedd neb wedi gweld unrhyw beth fel yma o'r blaen, roedden nhw wedi arfer gyda'r brenin Saul, oedd wedi troi yn frenin balch, oedd ddim yn addoli'r Arglwydd ac â meddwl mawr o farn pobl amdano.

Rŵan, mae Michal, gwraig Dafydd a merch Saul, yn troi at ei gŵr gan ei wawdio am ddangos ei hun yn ffŵl o flaen y gweision. Tybed ydym ni'n rhannu yr un farn â Michal nad ydy o'n weddus i frenin fihafio yn y modd yna ac y dylai fod yn fwy cyfrifol neu ffurfiol?

Roedd Michal wedi arfer gweld ei thad yn addoli. Roedd hi wedi arfer gweld dyn yn addoli Duw nad oedd yn ei barchu na'i garu. Roedd wedi arfer gweld dyn nad oedd yn parchu Arch y Cyfamod, lle roedd yr Arglwydd yn byw. Mae Dafydd yn addoli go iawn – allan o gariad a llawenydd yn yr Arglwydd – ac yn ystyried Duw uwchben pawb arall. Dyma oedd wedi gwneud Michal yn anghyfforddus. Tybed ydym ni'n debyg i Michal? Ydy'r syniad o wir addoliad yn ein gwneud ni'n anghyfforddus? Tybed ydyn ni'n meddwl gormod am beth mae pobl yn ei feddwl amdanom ni i wir addoli yr Arglwydd? Fel Cristnogion, yr Arglwydd ddylai fod y peth pwysicaf yn ein bywydau ni, ac felly, mae ein haddoliad ni a'n capeli ni i fod i adlewyrchu'r ffaith yna.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Luc 9:1-6 (BCND tud.74 / BCN tud.68)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Gwion

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 10^{fed} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah Dafydd a bydd Rhodri yn pregethu. Edrychwn ymlaen hefyd i gael cwmni Elin Bryn Williams fydd yn sôn ychydig am ei gwaith gyda myfyrwyr Undebau Cristnogol ar draws gogledd Cymru.
- Mercher – 13^{eg} ➤ **“Sarah yn Ethiopia”** – Yn dilyn Apêl Ethiopia a gafwyd yn gynharach eleni, bydd noson yng nghwmni Sarah yn Ffestri Llansannan am 7.30 lle cawn gyflwyniad ar ei thaith pan fu’n gweld prosiectau *Tearfund* ar hyd a lled y wlad ym mis Mehefin. Croeso i bawb.
- Iau – 14^{eg} ➤ **Cwrdd Chwarter Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint** yn cyfarfod yn Llansannan am 7.00. Bydd Rhodri yn ein hannerch ar ‘Dylanwad y Diwygiad Protestannaidd ar yr Eglwys Heddiw’. Croeso i bawb. Yn dilyn yr anerchiad, trafodir y materion sy’n ymwneud â’r Cwrdd Chwarter.
- Sul nesaf – 17^{eg} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn Williams, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 10^{fed} ➤ Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa i’r daith yng Nghewn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.
- Mawrth – 12^{fed} ➤ Croeso i chi ddod am ginio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15.
- Sul nesaf – 17^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i’r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 10^{fed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deulu yn Ffestri Llansannan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
- Mercher – 13^{eg} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656), os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 17^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 10^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i’r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.
- Sul nesaf – 17^{eg} ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa i’r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 10^{fed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i’r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 17^{eg} ➤ Bydd y Parch. David Owens yn arwain oedfa yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a bydd Ysgol Sul i’r plant a’r oedolion yn Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 10^{fed} ➤ Bydd y Parch. John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yng Nghewn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghewn Berain am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg â’r oedfa yn Llanefydd a’r oedolion am 11.15.
- Gwener – 15^{fed} ➤ Cynhelir y Clwb Cinio yng Nghapel Llanefydd am 11.45. Yr enwau i’w cyflwyno i Eluned (540453) neu Carol (540320) **erbyn dydd Sul, Medi 10^{fed}**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 17^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i’r daith yng Nghewn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Manylion Cyswllt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i’w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio’n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.